



---

# **ADRODDIADAU ARHOLWYR**

---

**LLWYBRAU MYNEDIAD  
CYMRAEG**

**HAF 2018**

## LLWYBRAU MYNEDIAD

### CYMRAEG

Haf 2018

Diolch yn fawr eto am waith athrawon Cymru gydag ymgeiswyr y cymhwyster hynod werthfawr hwn. Gwerthfawrogir pob ymdrech ac arweiniad i ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefel hon. Fel arfer, hoffwn eich atgoffa bod enghreifftiau o dasgau ar gael ar wefan ddiogel CBAC sy'n cynnig arweiniad ar y gwahaniaeth rhwng perfformiad M2 ac M3, a dwyn sylw'r canolfannau hynny sydd wedi cael trafferth gwahaniaethu wrth gyflwyno unedau ar gyfer y gyfres hon.

#### Uned 6360 – Trafod Profiadau a Theimladau

Ar eu gorau, roedd ymgeiswyr yn cael eu harwain i siarad yn rhwydd, naturiol ac agored am brofiadau o ddiddordeb iddynt. Yn yr achosion hynny, roedd athrawon yn grefftus o ddoeth wrth holi cwestiynau agored a oedd yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos cyfoeth eu hadnoddau ieithyddol mewn ffordd frwdfrydig a difyr. Roedd y mwyafrif yn gallu mynegi barn yn syml am eu profiadau a theimladau. Yn anffodus erys rhai enghreifftiau o hyd lle roedd ysgolion wedi sgriptio'r trafodaethau mewn ffordd annaturiol a diflas, a hynny ar gyfer gofynion y dasg TGAU ac felly nid oedd modd gwobrwyo'r ymgeiswyr hynny o gwbl. Fe aildroddaf yr hyn a ddywedir ym mhob adroddiad gennyf: Ni ellir gwobrwyo sgriptio ar unrhyw gyfrif am mai tasg TRAFOD yw hon i fod. Sgwrsio naturiol yw'r hyn y dylid anelu ato. Ni ellir chwaith gwobrwyo ymgeiswyr sy'n cyflwyno ar lafar yn ôl gofynion yr arholiad TGAU.

O ran trefniadau ymarferol: mae'n ofynnol i bob canolfan recordio pob ymgeisydd cyn i CBAC hawlio'r sampl. Gofynnir i chi labelu'r cryno ddisg neu'r ffon gof yn gywir, a labelu'r traciau o fewn hynny'n gywir gan ei fod yn amhosib dod o hyd i'r ymgeisydd ar adegau gan nad oes unrhyw arwydd pwy yw pwy. Gofynnir i chi hefyd wirio bod y recordiad yn gywir. Gofynnir i chi nodi hefyd ar y daflen asesu bod gwirio/safoni mewnol wedi digwydd trwy gynnwys llofnod yr athro a fu'n gwneud hynny.

#### Uned 6361 – Trawsieithu

Dyma dasg sy'n gwobrwyo sgiliau dwyieithog hynod werthfawr ein disgyblion. Roedd y goreuon wedi llwyddo cywain gwybodaeth o destunau Saesneg amrywiol ac roeddynt wedi defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn y Gymraeg mewn ffordd ddiddorol a chreadigol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa bod angen deunydd darllen heriol er mwyn cyflawni gwaith Mynediad 3 a chywain gwybodaeth fanwl. Gweler y deunyddiau ar wefan ddiogel CBAC er mwyn cael enghreifftiau o dasgau addas.

#### Uned 6362 – Ymateb i ffilm / Rhaglen Deledu

Roedd yr ymgeiswyr ar eu gorau wedi mwynhau trafod rhaglen/ffilm cwbl addas o fewn eu profiad mewn dyfnder ac mewn ffordd naturiol, a'r goreuon ar M3 yn gallu cyfeirio at dechnegau ffilm. Braff oedd clywed arweiniad a holi pwrpasol athrawon a oedd yn allweddol wrth sicrhau ymatebion aeddfed a threiddgar ymgeiswyr, yn enwedig pan fo ymgeisydd M2 a M3 yn yr un grŵp. Rhaid sicrhau ymatebion ymestynnol ar lefel M3 er mwyn medru gwobrwyo ymgeiswyr, ac mae'n rhaid osgoi SGRIPTIO ar bob cyfri'. Ni ellir gwobrwyo sgriptio o gwbl, gan mai TRAFODAETH yw hon i fod.

#### Uned 6363 – Ymateb i Ryddiaith

Llwydda ymgeiswyr i ymateb mewn ffordd wreiddiol a diddorol i ddeunydd addas o fewn profiad pobl ifanc. Mae gwaith M3 yn gofyn am gryn dipyn o fanylder ac ysgrifennu estynedig.

### Uned 6364 – Ysgrifennu Stori

Roedd y straeon gorau yn dangos ôl cynllunio manwl ac ymdrech i ddisgrifio a chreu nodweddion arddull a naws. O ganlyniad roedd y straeon hyn yn ddiddorol a gwreiddiol. Er mwyn sicrhau M3 rhaid wrth straeon eithaf estynedig yn hytrach na rhai arwynebol a syml. Eto, ceir enghreifftiau pellach ar wefan ddiogel CBAC.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn: 029 2026 5000  
Ffacs: 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)